| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Medi, 2019** |
| **Teitl:** | **Materion Aelodau Etholedig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd ar gynnydd hyd yma** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn ydi diweddaru'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

1.1 Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol am y cyfnod 2018 - 19.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

O safbwynt adroddiadau blynyddol ar gyfer 2018 / 19 mae 28 o Aelodau bellach wedi paratoi adroddiadau hyd yn hyn.

Mae modd gweld yr adroddiadau a baratowyd hyd yma ar y linc isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

Diweddarwyd Arweinyddion Grwpiau ar y gwaith o baratoi adroddiadau. Bydd adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2019/20 ynghylch y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddisgwyliadau penodol ar Aelodau yn y Mesur Llywodraeth Leol a gyhoeddir yn y dyfodol.

1.2 Siarter Datblygu a Chefnogi Aelodau

Yn ogystal, adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar y bwriad i baratoi ail asesiad ar gyfer anghenion Siarter Datblygu a chefnogi Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cyflwynwyd tystiolaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol yn ystod chwarter 4 fel rhan o gais y Cyngor. Anfonwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth. Rwy'n falch o adrodd bod cais y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus. Cyflwynwyd tystysgrif swyddogol i'r Cyngor mewn cyfarfod o Rwydwaith Cefnogi CLlG ym mis Gorffennaf. Mae'r Siarter yn ddilys am gyfnod o 3 blynedd.

## 2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**27 Awst, 2019**